Gweinyddiaeth Cyfiawnder

Taflen ffeithiau Parthau Cyfyngu

Bwriad y daflen ffeithiau hon yw helpu sefydliadau cymorth i ddioddefwyr i ddarparu gwybodaeth a chymorth i ddioddefwyr ynglŷn â Pharthau Cyfyngu.

Rydym yn cydnabod y gallai rhyddhau troseddwr o'r carchar fod yn gyfnod pryderus i ddioddefwyr sydd â phryderon ynglŷn â dod ar draws troseddwr yn y gymuned. Mae Parthau Cyfyngu wedi'u cynllunio i leihau'r tebygolrwydd o gyswllt digroeso â throseddwyr ar brawf, sy'n rhoi hyder iddynt gyda'u symudiadau.

Beth yw Parthau Cyfyngu a pham ein bod yn eu cyflwyno?

Amodau trwydded yw'r rheolau y mae'n rhaid i bobl eu dilyn pan fyddant ar drwydded ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar. Mae bod 'ar drwydded' yn golygu dilyn yr amodau hyn hyd at ddyddiad penodol. Mae amodau trwydded yn cael eu hysgrifennu ar ddogfen drwydded ac maent yn cael eu hesbonio i'r troseddwr pan fyddant yn cael eu rhyddhau. Mae yna amodau trwydded safonol sy'n berthnasol i bawb ac a fydd ar bob dogfen drwydded. Efallai y bydd gan droseddwr amodau trwydded ychwanegol os bydd eu Hymarferydd Prawf o'r farn ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur i wneud hynny.

Os na ddilynir yr amodau hyn, gellir cymryd camau gorfodi, gan gynnwys adalw i'r carchar.

Rydym yn cymryd camau i gyfyngu symudiadau troseddwyr ar hyn o bryd drwy amodau trwydded ychwanegol a elwir yn Barth Eithrio. Mae'r rhain yn ardaloedd na all troseddwyr fynd iddynt. Defnyddir Parthau Eithrio yn helaeth gan y Gwasanaeth Prawf.

Rydym yn ehangu'r ystod o offerynnau sydd ar gael i'r gwasanaeth Prawf yn awr i reoli risg a diogelu dioddefwyr. Dyna pam, drwy Ddeddf Dedfrydu 2026, ein bod yn cyflwyno amodau trwydded ychwanegol newydd a fydd yn cyfyngu symudiadau troseddwr ar

drwydded i ardal ddaearyddol ddiffiniedig am gyfnod o amser penodol, a elwir yn ‘Barth Cyfyngu’.

Mae Parth Cyfyngu yn ei gwneud yn ofynnol i droseddwr ar brawf aros o fewn ardal benodedig yn hytrach na’u heithrio o ardal benodedig (Parth Eithrio). Mae angen map i orfodi Parthau Cyfyngu, a fydd yn nodi’r ardal na all y troseddwr ar brawf ei gadael. Yn y rhan fwyaf o achosion, rhennir y map hwn gyda’r dioddefwr.

Yr Ymarferydd Prawf sy’n gyfrifol am gynllunio unrhyw Barth Cyfyngu, gan ddefnyddio gwybodaeth a ddarparwyd gan y dioddefwr drwy eu Swyddog Cyswllt Dioddefwyr (VLO) a gwybodaeth arall berthnasol er mwyn asesu risg. Er mwyn penderfynu ar faint y parth, rhaid i’r Ymarferydd Prawf gydbwyso’r angen i gyfyngu symudiadau’r troseddwyr gyda’r angen i sicrhau mynediad at wasanaethau sy’n lleihau’r risg y bydd y troseddwr yn cyflawni trosedd arall, er enghraifft triniaeth gyffuriau neu gyflogaeth.

Pam fydd anghenion troseddwr yn gwrthdaro ag anghenion dioddefwr, bydd yr ymarferydd prawf yn ystyried y materion yn ofalus. Pan fydd yr anghenion hynny’n gyfartal (er enghraifft mae angen mynediad i’r un lleoliad ar gyfer yr un pwrpas) yna rhoddir blaenoriaeth i’r dioddefwr, a rhaid gwrthod mynediad i’r troseddwr.

Gellir gweithredu Parthau Cyfyngu ar y pwynt rhyddhau o’r carchar neu ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod trwydded.

Trefniadau llety

Rydym yn cydnabod y gall heriau penodol godi pan fydd dioddefwyr a throseddwyr yn byw yn agos at ei gilydd. Cyn rhyddhau unrhyw droseddwr, bydd y Gwasanaeth Prawf yn adolygu eu trefniadau llety, amodau trwydded a’r cynllun rheoli risg ehangach yn fanwl. Mae hyn yn cynnwys asesu a yw cyfeiriad arfaethedig yn addas ac a allai gynyddu’r risgiau i’r dioddefwr neu’r cyhoedd. Os na ellir rheoli risgiau’n briodol, bydd trefniadau amgen yn cael eu hystyried. I droseddwyr sy’n cyflwyno’r risgiau uchaf, gallai llety mewn Eiddo Cymeradwy fod yn rhan o’r trefniadau rheoli risg.

Nid yw trefniadau llety yn cael eu gwneud yn unigol ac maent yn cael eu hystyried ochr yn ochr â mesurau rheoli risg ehangach, gan gynnwys amodau trwydded, pryderon sy’n gysylltiedig â dioddefwyr a pharthau cyfyngu, pan fydd yn briodol. Pan fydd troseddwr yn destun gofyniad preswylio, gan gynnwys gofyniad i aros mewn Eiddo Cymeradwy, gall hyn weithredu ochr yn ochr â pharth cyfyngu. Gall troseddwyr sy’n torri eu hamodau trwydded, neu y mae eu risg yn cynyddu, gael eu hadalw i’r carchar.

Pwy sy’n penderfynu i weithredu Parth Cyfyngu a sut y gall dioddefwyr wneud sylwadau?

Rhaid i ddiogelwch, lles a mesurau diogelu dioddefwyr fod yn ystyriaethau sylfaenol wrth gynnig, adolygu neu amrywio Parth Cyfyngu. Bydd Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr (VLO) yn esbonio amodau trwydded i ddioddefwyr yn ystod yr apwyntiad cychwynnol ac ar y cam cyn rhyddhau, gan gynnwys yr angen iddynt fod yn angenrheidiol a chymesur. Dylai

dioddefwyr sy'n gymwys ar gyfer ac sydd wedi optio i mewn i'r Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr ar gyfer Parthau Cyfyngu gyflwyno eu ceisiadau drwy eu VLO.

Gall dioddefwyr gyflwyno sylwadau drwy eu VLO, a fydd yn eu rhannu gydag Ymarferydd Prawf y troseddwr. Bydd ymarferwyr yn ystyried unrhyw geisiadau am Barth Cyfyngu ochr yn ochr â'r risgiau a gyflwynir gan y troseddwr. Fel gydag amodau trwydded eraill, byddant yn cyflwyno eu hargymhellion yn dilyn hyn i'r penderfynwr ffurfiol, sef Llywodraethwr y Carchar neu'r Bwrdd Parôl, yn dibynnu ar ddedfryd y troseddwr.

Cyflwynwyd canllawiau penodol ar Barthau Cyfyngu i VLO ochr yn ochr â'r canllawiau cyffredinol ar gyfer y gwasanaeth Prawf. Gall VLO gynorthwyo dioddefwyr i wneud sylwadau ac esbonio pryd a sut y gellir defnyddio parthau cyfyngu. Byddant hefyd yn esbonio'r trothwy ar gyfer Parth Cyfyngu o gymharu â Pharth Eithrio.

Os rhoddir Parth Cyfyngu ar waith, bydd VLO y dioddefwr ond yn cysylltu â nhw os gallai'r Parth Cyfyngu newid – er enghraifft, os yw'r parth yn cael ei amrywio, neu os oes ystyriaeth i'w ddileu. Ni hysbysir dioddefwyr o ganlyniad pob adolygiad risg prawf mewnol – gallai gwneud hyn eu hail-drawmateiddio.

Rydym yn deall y gallai dioddefwyr fod yn bryderus os na fydd Parth Cyfyngu yn cael ei gymeradwyo. Er nad oes proses apelio ffurfiol ar gyfer penderfyniadau i beidio caniatáu Parth Cyfyngu, gall dioddefwyr godi pryderon drwy'r broses gwyno arferol os oes ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â'r penderfyniadau. Gall eu VLO drafod eu pryderon a'u cyfeirio at y broses hon. Mae ar gael i ddioddefwyr yma: https://www.gov.uk/government/organisations/hm-prison-and-probation-service/about/complaints-procedure

Bydd unrhyw wybodaeth neu bryderon sy'n gysylltiedig â risg sy'n cael eu codi gan y dioddefwr yn cael eu rhannu gyda'u Hymarferydd Prawf.

Lle ydym ni'n disgwyl i barthau cyfyngu gael eu defnyddio?

Byddwn yn dechrau eu gweithredu o 1 Hydref. Bydd y ddeddfwriaeth yn galluogi i Barthau Cyfyngu gael eu defnyddio mewn achosion trwydded, yn amodol ar y meini prawf a nodir yn y daflen ffeithiau hon. Nid yw'r achosion hynny wedi'u cyfyngu i achosion newydd o ryddhau troseddwyr o'r carchar, felly gellir eu defnyddio mewn unrhyw achos ar drwydded o 1 Hydref. Gall Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr drafod Parthau Cyfyngu gyda dioddefwyr cyn 1 Hydref, ar yr amod bod y dyddiad rhyddhau ar neu ar ôl 1 Hydref a bod y meini prawf cymhwysedd wedi'u cyflawni.

Meini prawf cymhwysedd

Er nad yw unrhyw achosion penodol wedi'u heithrio, rydym wedi anfon cyngor at ein swyddogion prawf am y mathau o achosion sy'n fwyaf tebygol o fod yn gymwys. Mae parthau cyfyngu yn newydd iawn, felly mae pennu meini prawf a chanolbwyntio ar unrhyw lwybrau sefydledig sydd gennym i ymgysylltu dioddefwyr yn y camau gweithredu cynnar yn allweddol er mwyn cyflwyno'r mesur yn llwyddiannus.

Y troseddwyr sydd wedi'u collfarnu o'r troseddau canlynol – yn ogystal â ffurfiau anghyflawn ar y troseddau hyn (h.y. ceisio cyflawni trosedd neu gynllwynio i'w chyflawni) – sydd fwyaf tebygol o gael eu hystyried; er hynny, efallai na fydd hyn yn wir bob amser, ac nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr:

Troseddau treisgar a rhywiol:

- Llofruddiaeth
- Dynladdiad
- Treisio
- Treisio plentyn
- Ymosodiad rhywiol

Troseddau â chysylltiadau hysbys i gam-drin domestig:

- Ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol
- Stelcio sy'n cynnwys ofn trais neu bryder neu drallod difrifol
- Anafu gyda'r bwriad o achosi niwed corfforol difrifol
- Ceisio mygu, tagu neu lindagu er mwyn cyflawni, neu gynorthwyo i gyflawni, trosedd y gellir ei herlyn ar dditiad

Yn y rhan fwyaf o achosion, ystyrir Parthau Cyfyngu pan fydd dioddefwr yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr a'u bod wedi optio i mewn iddo, gan ganiatáu i'w safbwyntiau hysbysu dyluniad y parth. Er nad oes angen i ddioddefwyr fod wedi optio i mewn i'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr bob tro er mwyn ystyried Parth Cyfyngu, disgwylir i hyn ddigwydd mewn nifer cyfyngedig o amgylchiadau pan fydd y gwasanaeth Prawf yn ystyried bod Parth Cyfyngu yn angenrheidiol at ddibenion ehangach rheoli risg neu ddiogelu'r cyhoedd, er enghraifft diogelu plant neu reoli risgiau troseddau rhywiol rheibus, ar yr amod bod y meini prawf cymhwysedd yn cael eu cyflawni.

Byddwn yn cynnwys mwy o ddioddefwyr troseddau – megis troseddau stelcio ac aflonyddu ehangach – o fewn y cwmpas erbyn diwedd y flwyddyn.

Gellir ystyried Parthau Cyfyngu pan fydd y meini prawf isod yn cael eu cyflawni:

- Mae'r gwasanaeth Prawf wedi asesu bod y troseddwr yn cyflwyno'r risg uchaf o niwed difrifol a'r risg uchaf un ac aildroseddu difrifol, yn y mwyafrif o achosion. Mae'r gwasanaeth Prawf yn asesu risg o niwed ac aildroseddu gan ddefnyddio offerynnau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, barn ymarferydd, a gwybodaeth gyfredol am amgylchiadau troseddwr; adolygir yr asesiad hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn

parhau i fod yn gywir. Mae gan y Gwasanaeth Prawf ddisgresiwn hefyd i ystyried pob achos sy'n bodloni'r meini prawf isod.

- Mae eu trosedd yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr (VCS), a/neu maent wedi cyflawni trosedd rywiol neu dreisgar ddifrifol o dan Atodlen 15 Deddf Cyfiawnder Troseddol , ac maent yn destun dedfryd o garchar o 12 mis neu fwy;

- Mae amodau trwydded ychwanegol eraill, gan gynnwys Parthau Eithrio, wedi'u hasesu a chanfuwyd nad ydynt yn ddigonol. Er enghraifft, gallai hyn fod yn wir pan fydd y troseddwr yn bygwth y dioddefwr neu eu teulu, neu pan fydd dioddefwyr lluosog yn byw mewn gwahanol ardaloedd.

Pan na fydd Parth Cyfyngu ar gael neu'n briodol, bydd y gwasanaeth Prawf yn ystyried mesurau eraill i reoli risg a diogelu dioddefwyr. Gall dioddefwyr wneud sylwadau ar gyfer y mesurau hyn, er enghraifft parthau eithrio, drwy'r Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr.

Sut mae Parth Cyfyngu yn cael ei fonitro a'i weithredu?

Bydd gwaith monitro a gorfodi effeithiol yn ganolog i hyder dioddefwyr yn y parthau cyfyngu. Bydd y mwyafrif o ddioddefwyr sy'n ddarostyngedig i Barth Cyfyngu hefyd yn ddarostyngedig i Fonitro Electronig ar gyfer hyd y Parth Cyfyngu. Mewn achosion prin, efallai na fydd Monitro Electronig yn ddiogel neu'n ymarferol. Os bydd hyn yn digwydd, gellir parhau i ychwanegu parth cyfyngu i drwydded os dyma fydd y ffordd orau i reoli risg. Yn yr achosion hyn, bydd gwaith monitro yn dibynnu ar ddulliau eraill, er enghraifft goruchwyliaeth reolaidd, asiantaethau yn rhannu gwybodaeth gan gynnwys yr heddlu, a chymryd camau os bydd y troseddwr yn torri amodau'r Parth Cyfyngu.

Mae Parthau Cyfyngu yn cael eu gorfodi yn unol â phrosesau gorfodi trwydded sefydledig. Gallai achos o dorri unrhyw amod trwydded, gan gynnwys gofyniad parth cyfyngu, arwain at adalw i'r carchar ar ôl asesu nad yw'n bosibl parhau i reoli risg y troseddwr yn y gymuned.

Pan fydd y Gwasanaeth Monitro Electronig (EMS) wedi'i hysbysu bod amod Monitro Electronig wedi'i sefydlu, bydd EMS yn hysbysu Ymarferwyr Prawf a blychau postio monitro electronig rhanbarthol o fewn yr amserlenni cytundebol ynglŷn ag unrhyw achosion o dorri'r amod. Bydd y wybodaeth a roddir i'r Ymarferydd Prawf yn cynnwys map o'r llwybr GPS ar gyfer y cyfnod torri amod. Yna bydd yr Ymarferydd Prawf yn asesu a yw'r achos o dorri yn cynrychioli torri amodau, ac yn cymryd camau priodol - a all gynnwys rhybuddion ysgrifenedig neu adalw'r unigolyn i'r ddalfa, lle bo hynny'n briodol.

A fydd dioddefwyr yn cael eu hysbysu am dorri amod?

Pryd bynnag y bydd y troseddwr yn torri amodau'r parth cyfyngu, bydd y Gwasanaeth Prawf yn ystyried a yw'r achos o dorri amod gyfystyr â chynnydd i risg troseddwr sy'n cyfiawnhau eu hadalw i'r ddalfa.

Pan wneir penderfyniad i adalw'r troseddwr, hysbysir dioddefwyr bod y troseddwr wedi torri amod y parth cyfyngu a'u bod wedi'u hadalw i'r ddalfa.

Pan wneir penderfyniad i beidio adalw'r troseddwr, ni fydd y dioddefwyr yn cael eu hysbysu o'r achos o dorri amod y parth cyfyngu, oherwydd mae'r Gwasanaeth Prawf wedi dod i'r casgliad nad yw'r achos o dorri amod yn cael unrhyw effaith ar risg sylfaenol y troseddwr.

Felly, gellir sicrhau dioddefwyr y bydd yr Ymarferydd Prawf yn ystyried pob achos o dorri amod yn ofalus, yn asesu'r risgiau dan sylw ac yn cymryd camau priodol pan fydd angen.

Sut y gall troseddwyr wneud sylwadau am Barthau Cyfyngu?

Bydd yr Ymarferydd Prawf yn esbonio pam fod y Parth Cyfyngu wedi'i ddylunio fel hyn, beth fydd yn digwydd os bydd achos o dorri amod, a sut a phryd y bydd yn gweithredu. Gall pobl ar brawf, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu rhyddhau gan y Bwrdd Parôl, drafod eu Parth Cyfyngu gyda'u Hymarferydd Prawf.

Pam fod Parthau Cyfyngu yn cael eu hadolygu?

Mae angen gwaith asesu, monitro a rheoli parhaus dwys ar Barthau Cyfyngu. Rydym yn cydnabod y gallai adolygiad o Barth Cyfyngu, a'r posibilrwydd y bydd yn newid, wneud i ddioddefwyr deimlo'n anesmwyth. Mae adolygiadau yn bwysig i sicrhau bod y parth yn parhau i ddarparu diogelwch priodol a'i fod yn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn amgylchiadau'r dioddefwr. Er enghraifft, os bydd y dioddefwr yn symud tŷ, mae'n bosibl y bydd angen ail-lunio'r parth.

Bydd Parthau Cyfyngu'n cael eu hadolygu bob tri mis i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn angenrheidiol ar gyfer rheoli risgiau a nodwyd ac ystyried unrhyw newidiadau yn amgylchiadau'r dioddefwr. Cynhelir adolygiad gorfodol hefyd ar ôl 12 mis. Ni fydd angen i ddioddefwyr aros am adolygiad wedi'i drefnu i roi gwybod am newid yn eu hamgylchiadau. Gallent gysylltu â'u VLO unrhyw bryd er mwyn i'r Ymarferydd Prawf allu ystyried hyn.

Bydd dioddefwyr yn cael gwybod os bydd adolygiad yn arwain at newidiadau i'r parth. Lle bo'n briodol, byddant hefyd yn cael gwybod am unrhyw lwybrau mynediad y cytunwyd arnynt, neu eithriadau y tu allan i'r parth. Gellir caniatáu'r rhain ar gyfer gweithgareddau penodol yn unig – gweithgareddau sydd wedi'u cymeradwyo ymlaen llaw ac sydd â thystiolaeth i'w cefnogi, megis mynychu apwyntiad meddygol – a rhaid iddynt ystyried anghenion y dioddefwr, y cynllun rheoli risg, a barn broffesiynol yr ymarferydd.

Pryd mae parth cyfyngu yn dod i ben?

Fel gydag amodau trwydded eraill, bydd Parth Cyfyngu yn dod i ben pan fydd y risgiau y rhoddwyd y Parth Cyfyngu ar waith i'w rheoli wedi lleihau ac nad oes angen iddo barhau i fod ar waith. Bydd yr asesiad hwn yn cynnwys mewnbwn gan y dioddefwyr drwy eu VLO. Rydym yn cydnabod y bydd yn gyfnod pryderus i ddioddefwyr. Cyn dileu Parth Cyfyngu, hysbysir y dioddefwyr gan eu VLO a rhoddir amser iddynt drafod a gwneud sylwadau ar

gyfer amodau trwydded amgen, er enghraifft Ardaloedd Eithrio. Rhaid i'r gwasanaeth Prawf ystyried unrhyw sylwadau, a rhaid i unrhyw fesurau y cytunwyd arnynt gael eu gweithredu cyn dileu'r Parth Cyfyngu. Hysbysir dioddefwr o'r canlyniad gan eu Swyddog Cyswllt Dioddefwyr.

Mesurau cyfyngol eraill

I helpu i ddiogelu dioddefwyr a'u teuluoedd, bydd Deddf Dedfrydu 2026 yn rhoi'r pŵer i'r gwasanaeth Prawf gyflwyno amodau trwydded cyfyngol newydd. Bydd y rhain yn atal troseddwyr rhag:

- Gyrru
- Mynychu digwyddiadau cyhoeddus
- Mynychu sefydliadau yfed, gan gynnwys tafarndai, clybiau a bariau

Bydd y rhain yn cael eu cymhwyso fel amodau trwydded ychwanegol a gellir eu cymhwyso ni waeth pa drosedd a gyflawnwyd.

Bydd y llysoedd hefyd yn gallu cymhwyso'r gwaharddiadau hyn fel gofynion cymunedol ar gyfer Gorchmynion Cymunedol a Gorchmynion Dedfryd Ohiriedig.

Monitro Electronig

Er mwyn cefnogi gweithrediad y Ddeddf Dedfrydu, mae'r Llywodraeth yn cyflwyno rhagdybiaeth y bydd troseddwyr sy'n gadael y carchar sy'n cael eu rhyddhau o dan y model cynnydd yn cael eu tagio wrth gael eu rhyddhau fel rhan o drefniant goruchwyliaeth ddwys yn y model. Bydd staff prawf yn cadw'r disgresiwn i ddefnyddio eu barn broffesiynol a pheidio â chyflwyno gofyniad Monitro Electronig lle mae'n amhriodol neu'n debygol o gynyddu'r risg, ond bydd tagio ar ôl cyfnod yn y ddalfa yn ehangu'n sylweddol o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol. Ymhellach i hyn, bydd pob trosedd treisio a rhai troseddau rhyw yn erbyn plant sydd wedi'u heithrio o'r Model Cynnydd yn destun monitro 12 mis ar ôl eu rhyddhau.

Yn ogystal, byddwn yn cwblhau cyflwyniad cenedlaethol ein cynllun peilot **Troseddwyr Cam-drin Domestig ar Drwydded (DAPOL)**, gan ehangu o wyth rhanbarth prawf i bob un o'r 12, gan osod tag ar garcharorion sy'n gadael y carchar ac sydd mewn perygl o gyflawni cam-drin domestig, a gweithredu parthau eithrio, monitro lleoliad, a chyfyngiadau cyrffyw. Bydd hyn yn weithredol ledled Cymru a Lloegr ym mis Hydref, yn unol â'r gyfran gyntaf o garcharorion sy'n cael eu rhyddhau o dan y Model Cynnydd.

Rydym hefyd yn ehangu ein **cynllun tagio GPS Trosedd Feddiangar** i bob un o'r 43 ardal heddlu erbyn diwedd y Senedd hon. Mae'r cynllun yn defnyddio dull monitro electronig GPS i reoli troseddwyr sydd wedi'u collfarnu o droseddau meddiangar, er enghraifft bwrgleriaeth, lladrad a dwyn.

Byddwn yn cyhoeddi canllaw pellach ar y mesurau hyn maes o law.